Cofnodion Cyfarfod 14 Gorffennaf 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown	Mair Bebb Jones	
Lena Ashley	Nerys John	
Sarah Riley	George Smith	
Louise Hughes		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cynghorydd Ken Brown Cadeirydd y Cyngor yr aelodau i gyfarfod mis Gorffennaf. **Ymddiheuriadau**: Pat Jones, Daniel Williams, Iestyn Harris Cyflwynodd y Cynghorydd Ken Brown adroddiad byr ynglŷn â rhai materion oedd wedi codi ers y cyfarfod diwethaf. Rhoddodd eglurhad pan nad oedd biniau sbwriel yn cael eu casglu o Ger y Nant yn hytrach roedd y trigolion yn gorfod eu danfon i'r gyffordd; y rheswm am hyn oedd bod y ffordd o fewn y stad heb eu gorffen a bod angen ail osod y cwrbiau. Ar hyn o bryd fydd rhaid parhau a'r ymarferiad yma o fynd a'r biniau at y gyffordd. Roedd wedi bod mewn cyfarfod Her Gwynedd gyda'r Cynghorydd Daniel Williams ac o ganlyniad toriadau mewn cyllid awdurdodau lleol bydd toriadau mawr a bydd y Cyngor Sir yn edrych i Gynghorau Cymunedol i gymryd a rhai agweddau o waith y Cyngor ond ni fydd arian ychwanegol. Dywedodd bod Safle Moriah angen ei chwynnu a hefyd roedd y Cloc angen yr un gwaith. Penderfynwyd byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau gan rhai o Gynghorwyr y Cyngor Cymuned. Roedd Cynghorwyr Sarah Riley a Mair Bebb Jones am edrych i mewn i gymryd cyfrifoldeb am y potiau blodau. Y Cynghorydd Ken Brown am edrych os byddai blodau'r cloc yn gallu cael eu dyfrio o Neuadd yr Eglwys. Cafwyd gwybod bod y teiars yn parhau ar y Lon Las.	MBJ, SR, NJ,KB
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
2.1	Cyflwynodd Nerys John ffurflen datganiad buddiant personol ar eitem 9.1, Siân Gwenllïan ffurflen datganiad buddiant personol are item	

	9.4 a 9.5 a Mair Bebb Jones ffurflen datganiad buddiant personol ar 9.5.	
3.0	**COFNODION**	
3.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol 14eg o Orffennaf 2015. **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd fel rhai cywir a'u harwyddo.**	
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Kronos** – Y mater yn derbyn sylw gan y cwmni, mae angen contractau newydd. Bydd Cyngor Tref Caernarfon yn gweithredu ar ran y Felinheli.	
4.2	**Llwybrau lan y dŵr yn y cei a'r Marina** - Y Cynghorydd Sara Riley yn casglu gwybodaeth dystiolaethol ynglŷn â chael symud ymlaen i osod y llwybrau ar y rhestr cofrestru.	**SR**
4.3	**Toiledau Glan y Môr** – dim datblygiad hyd yma. Cyngor Gwynedd yn gweithio a'r bragdy.	
4.4	**Llwybrau cei** - nid yw'r llwybr wedi ei ail agor ar hyn y bryd gan fod symudiad pellach wedi bod yn y wal ac nid yw'r Cyngor yn hapus i'w agor.	
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
5.1	Angen gwneud trefniadau i osod llechen ar y Neuadd i gydnabod bod y Neuadd wedi derbyn gwaith adnewyddu.	**KB**
6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
6.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Mehefin.	
6.2	Archwiliad wedi ei gwblhau heb sylwadau. Diolchodd y Cadeirydd Ken Brown i'r Swyddog Ariannol am ei waith	
6.3	Cost gwared biniau ailgylchu o'r fynwent wedi cynyddu. Penderfynwyd byddai un casgliad pob bythefnos yn ddigonol. Deallir bod gwair sydd wedi ei dorri o'r fynwent yno hefyd - mae hyn yn groes i'r contract. Y Cadeirydd am gael gair a'r contractwr.	**Swyddog Ariannol** **KB**
7.0	**GOHEBIAETH**	
	Dim	
8.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
8.1	Agen cadarnhau bod ffurflen cais Grant Cadw yn gywir - Y Ffurflen i'w drosglwyddo i'r Cynghorydd Daniel Williams.	**DW**
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	C15/0435/20/LL - Cais i gadw gwaith i addasu ty yn ddwy uned byw heb gydymffirfio a canitad rhif C12/0907/20/LL - Bron Menai, Helen Terrace Y Felinheli LL56 4SZ - DIM SYLWADAU ond yr aelodau yn siomedig bod ceisiadau ol weithredol yn digwydd yn barhaus. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon llythyr	**CLERC**

	cyffredinol ynglŷn â hyn a gofyn am eglurhad a sut gall rheoli rhag bod hyn yn digwydd.	
9.2	C14/1202/20/AM – Dymchwel modurdai presennol a chodi modurdai a storfa gychod newydd gyda unded byw uwchben – Tir ger 26 Snowdon Street Y Felinheli LL56 4HQ – GWYBODAETH YN UNIG.	
9.3	C15/0603/20/CR – cais ol withredol i gadw 3 giat caeedig diogelwch – Menai Marina Hen Gei Llechi Y Felinheli LL56 4JN. – DIM SYLWADAU	
9.4	C15/0599/20/LL - Cais ar gyfer codi estyniad un llawr o flaen yr eiddo - Morawel 35 Ffordd Bryn Ffynnon y Felinheli LL56 4 SJ. - DIM GWRTHWYNEBIAD	
9.5	C14/1110/20/LL – codi 4 ty tair ystafell wely – tir ger Oaklands Penybryn, Y Felinheli, LL56 4YQ – DIM GWRTHWYNEBIAD.	
10.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dim i'w adrodd	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Dim i'w adrodd	
12.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
12.1	Dywedodd y Cynghorydd George Smith bod yr amser i archwilio'r llwybrau unwaith eto. Roedd Nerys John, Sarah Riley, Lena Ashley a Mair Bebb Jones yn barod i helpu a'r gwaith. Llwybrau ar y ffordd osgoi wedi cau oherwydd y Tyfiant, y Clerc i gysylltu â Merfyn Morris o'r Asiant gefnffyrdd.	**GS, SR, MBJ, LA, NJ** **CLERC**
13.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler Atodiad 1	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim i'w adrodd	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:10 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	